

Prosiect X

# Y Ffau Eira

Shoo Rayner

Jon Stuart

DRAKE

# Y Ffau Eira



Shoo Rayner
Lluniau gan Jon Stuart

Gwaeddodd Jac a chwifio ei freichiau, “Hops! Aros!”

Safodd Hops wrth ymyl llyn oedd â gorchudd o iâ. Roedd ei droed chwith wedi rhewi yn yr awyr. Roedd ar fin camu ar yr iâ.



Cydiodd Jac yn Hops. Tynnodd ef i ffwrdd o ymyl y llyn.

"Rydw i eisio sglefrio ar yr iâ," meddai Hops.

"Na!" atebodd Jac. "Mae'n beryglus."



Pwniodd Sbwt yr iâ â brigyn. Torrodd yr iâ'n hawdd.

"Gallet ti fod wedi syrthio i mewn," dywedodd Sbwt.

"Rydw i'n nofiwr da!" broliodd Hops.



“Paid bod yn ddwl, Hops,” dywedodd Non. “Gallet ti fod wedi cael dy ddal dan yr iâ.”

Cododd Hops ddarnau o’r iâ oedd wedi torri. “Mae’n union fel gwydr,” meddai.





Crynodd Non, “Brrrr! Mae’n rhewi allan fan hyn. Dewch i ni fynd i’r meicro-ffau.”

Baglodd y pedwar ffrind drwy’r eira dwfn.



Fel roedden nhw'n agosáu at y meicro-ffau... WHISH!

Aeth aradr eira heibio. Chwistrellodd eira dros fonyn y goeden i gyd.

"O, na! Mae'r ffau wedi ei gorchuddio gan eira!" cwynodd Hops. "Allwn ni byth fynd mewn nawr."

Roedd dannedd Non yn rhincian.

"Mae gen i syniad," dywedodd Sbwt. "Gallen ni wneud ffau eira - un fel iglw! Mae iglws yn gynnes tu fewn."



"Bydd hynny'n cymryd oesoedd," cwynodd Non.

"Dim meicro-iglw," meddai Sbwt.

Dechreuodd y ffrindiau bentyrru eira. Roedd adeiladu ochrau'r iglw'n hawdd. Roedd gwneud i'r to blygu fel cromen yn anoddach.



Yn fuan roedden nhw wedi gwneud iglw bach, perffaith.

"Dewch i ni gael mynd mewn," dywedodd Non.

Troesant ddeialau eu watshis ac ...






Aeth y meicro-ffrindiau i mewn i'w ffau eira.

"Mae'n dywyll," dywedodd Non.

"Mae angen ffenestri," meddai Jac.

"Gadewch i ni ddefnyddio'r iâ ges i o'r llyn," meddai Hops.





Aeth Jac a Hops i nôl yr iâ. Gwnaeth Non a Sbwt dyllau yn ochr yr iglw.


"Pam nad ydy'r iglw'n cwympo'n ddarnau?" gofynnodd Non.

"Mae siap cromen yn gryf iawn - hyd yn oed â thyllau yn yr ochr," esboniodd Sbwt.


Daeth Jac a Hops o hyd i'r iâ. Llusgon nhw ddarn 'nôl i'r iglw.



Cododd Jac yr iâ. Gosododd Non a Sbwt e yn y twll. Gwnaeth ffenestr berffaith.




Tu allan, gwnaeth Hops belen eira. Anelodd at Jac ac...




*THWMP!* Trawodd y belen eira Jac ar ei wddf. Diferodd eira rhewllyd i lawr ei gefn.

Gwnaeth Jac belen eira'n gyflym. Taflodd hi at Hops. Yn fuan roedd y ddau ffrind yn bloeddio ac yn taflu peli eira at ei gilydd.






Gwthiodd Sbwt ei ben allan drwy'r drws fel roedd pelen eira anferth yn chwyrlïo heibio.

"Dewch i weld y tu fewn," galwodd Sbwt.
Aethon nhw i gyd i mewn i'r iglw.
"Waw! Mae mor ddisglair," ebychodd Hops.
"Mae'n wych," dywedodd Jac.
"Ydy mae," cwynodd Non. "Ond rwy'n o-o-oe o hyd!"
"Rydw i'n gwybod sut y gelli di gynhesu," dywedodd Hops. "Dilyn fi!"



Roedd un darn o iâ ar ôl ar y llawr.

"Dewch 'mlaen!" gwaeddodd Hops. Sglefriodd ar draws yr iâ. "Gan ein bod ni'n fach, mae'r iâ'n ddigon cryf i ni sglefrio arno."



Yn fuan roedden nhw i gyd yn llithro a sglefrio o amgylch. Roedd rinc iâ Hops yn hwyl. Roedd bochau Non yn wridog.

“Dydw i ddim yn oer nawr!” gwaeddodd hi ar Hops. Gwibiodd heibio iddo ar un goes.



Trannoeth, disgleiriodd yr haul. Diferodd yr eira o'r coed.

Roedd to'r iglw wedi syrthio i mewn. Roedd rinc iâ Hops wedi mynd.

"Dewch 'mlaen," dywedodd Jac. "Gallwn ni fynd i mewn i'n meicro-ffau nawr. Mae angen ei thacluso ychydig."

"O, grêt," cwynodd Hops. "Tacluso... fy hoff beth!"

